Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYFARFOD CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 4 Medi 2024, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd D. Simmons (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. J. Evans, S. Feeney, Ms S. Fleming,
Mrs J. Hughes, K.R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor Ms R.S. Roberts,
Ms. V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mr. G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 13. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. M. Blakely-Walker a Ms. J. McAlpine.

## 14. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 14.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn (rhan o ardd) 51 Ffordd Russell, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1116<br><br>**DISGRIFIAD**: Datblygu 0.04 hectar o dir drwy adeiladu dau annedd (cais amlinellol yn cynnwys manylion y ffordd fynedfa, y tirlunio a'r cynllun gosod). |

| | |
|---|---|
| | **YMGEISYDD:** Mr M Malik o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Ysbyty Frenhinol Alexandra, Rhodfa'r Môr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3AS<br><br>**WARD:** Plas Tirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Evans<br>K.R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1123<br><br>**DISGRIFIAD:** Gosod caban 'Portakabin' dros dro ar ardal llain galed sy'n bodoli eisoes i weithredu fel uned cam i lawr i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)<br><br>**YMGEISYDD:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Office 2 Home, 1 Ffordd Wellington, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1AY<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1019<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd o siop (defnydd dosbarth A1) i fwyty/tecawê bwyd poeth (defnydd dosbarth A3)<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Muhammad Yasir Malik, Fflat 4, 17 – 19 Stryd Cinmel, Y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD****: Gwrthwynebu ar y sail isod:*<br><br>*1. Mae'r adeilad yn agos at y gyffordd gyda'r Stryd Fawr a Ffordd Russell – y gyffordd brysuraf yn y Rhyl gyda llawer o draffig efo cherbydau'n gadael y Rhyl tuag at un ai Brestatyn i'r dwyrain neu ar hyd yr A525 i'r de. Ni chaniateir parcio ar y stryd nesaf at yr adeilad.*<br><br>*Er bod yr ymgeisydd yn nodi nad yw parcio cerbydau'n berthnasol i'r cais, bydd natur y defnydd arfaethedig yn arwain yn annatod at barcio cerbydau yn union y tu allan i'r adeilad. Mae profiad o'r hyn sy'n digwydd mewn lleoliadau eraill o'r fath yn awgrymu, nid yn unig y bydd cwsmeriaid yn parcio yno, bydd cerbydau danfon bwyd yn parcio wrth ymyl yr adeilad hefyd wrth gasglu archebion i'w cludo i gwsmeriaid. Felly mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r gwasanaeth tecawê arfaethedig yn arwain at barcio ar y stryd wrth y gyffordd brysur hon ac yn creu gwrthdaro i gerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.* |

| | |
|---|---|
| | *Dywed y Cyngor y byddai hyn yn groes i baragraff viii Polisi RD1 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.*<br><br>2. *Nid yw'r cais yn cyfeirio at nifer y fflatiau gyda phreswylwyr yn byw ynddynt ar y llawr cyntaf a'r ail lawr uwchben y siop. Nid yw'n hysbys a oes preswylwyr yn yr adeiladau cyfagos. (Mae'r adeilad yn rhannu ffin gydag adeiladau ar y Stryd Fawr, a allai fod â fflatiau efo pobl yn byw ynddynt hefyd).*<br><br>Barn y Cyngor yw y byddai'r newid defnydd arfaethedig yn achosi effaith annerbyniol ar amwynder y preswylwyr sy'n preswylio uwchben, i'r ochr ac i du cefn safle'r cais oherwydd sŵn, tarfu ac arogleuon. Ar y sail hwn ystyrir bod y cais yn annerbyniol a'i fod yn groes i brawf vi) Polisi RD1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.<br><br>Nodwyd hefyd fod unedau adwerthu eraill sy'n agos at y lleoliad wedi mynegi pryderon am arogleuon yn effeithio ar eu busnes hefyd. |
| 14.4. | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 60 Rhodfa Elwy, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4AB<br><br>**<u>WARD:</u>** Tŷ Newydd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: M. Blackwell<br>A. Walker<br>Miss C.L. Williams<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2024/1103<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Adeiladu estyniad deulawr ar ochr yr annedd<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Colin McNair o'r cyfeiriad uchod<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.5 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 113 Stryd Fawr, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2023/0866<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Newid fflatiau ar y llawr cyntaf a'r ail lawr i ffurfio pedwar fflat hunan-gynhwysol, gan gynnwys addasiadau i'r ffenestri, gosod blaen siop newydd yn cynnwys caewyr dur sy'n rholio a gwaith cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Vikas Kakar, Spire Group Real Estate Ltd.<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.6 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Y tu cefn i 97 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2PG<br><br>**<u>WARD:</u>** Pendyffryn |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD**: A.J. Rutherford<br>D. Simmons<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1144<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd uned manwerthu (defnydd dosbarth B) i gampfa crefft ymladd (defnydd dosbarth E(d))<br><br>**YMGEISYDD:** Mr P Tidswell o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.7 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 9 Cae Thorley, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. M. Blakeley-Walker<br>Ms. V. Roberts<br>Sedd wag<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1224<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu ystafell haul ar du cefn yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Miss Cheryl Whitehead o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**15. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad: ………………………...